CC(3)-12-10 : paper 8

# Cymwysterau gallu ariannol

Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol.

**Ysgol y Berwyn, y Bala, 25 Mehefin 2010**

Yn bresennol: Mr Dewi Davies, Pennaeth; Mrs Sharon Jones, Athrawes Astudiaethau Busnes; Glesni ac Iwan, myfyrwyr chweched dosbarth

Mark Isherwood AC ac Ann Williams, Swyddog Addysg Gogledd Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- **A oedd gan y disgyblion ddewis i astudio'r cwrs hwn / Faint o ddisgyblion sydd wedi manteisio ar y cymwysterau IFS (Ysgol Gyllid y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol)?**

Oedd. Cafodd y disgyblion sy'n astudio TGAU Astudiaethau Busnes y dewis o gwblhau'r cymhwyster IFS ar Lefel 2. Yn y chweched dosbarth, cwblhawyd y cymhwyster lefel 3 gan bob disgybl a oedd yn cymryd rhan yng nghynllun Menter yr Ifanc. Eleni, roedd 6 disgybl yn astudio ar gyfer y cymhwyster lefel 3.

Yn ogystal, cwblhawyd y cwrs Lefel 1 gan ddisgyblion gallu is a oedd wedi dewis Gwyddoniaeth Cyffredinol fel TGAU. Er bod y gyfradd pasio yn isel ar y lefel hwn, roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gwaith ac maent wedi ennill sgiliau a gwybodaeth ymarferol.

Mae yna fwlch, lle mae'r grŵp yn y canol yn colli allan ar addysg ariannol.

- **Pam wnaethoch chi benderfynu cynnig cymwysterau gallu ariannol i'ch disgyblion?**

O ganlyniad i ddiddordeb Mrs Sharon Jones, a oedd hefyd wedi gweithio, yn y gorffennol, ar brosiect banc ysgol gyda HSBC. Mae wedi defnyddio prosiectau ISF yn rheolaidd, yn ogystal â chystadlaethau fel cystadleuaeth a her y Gyfnewidfa Stoc (gyda rhywfaint o lwyddiant yn y gorffennol). O ganlyniad, cafodd wybodaeth am y cymhwyster hwn.

- **Pwy sy'n dysgu'r gwersi gallu ariannol? A oedd angen hyfforddiant ar y staff presennol i ddysgu'r gwersi gallu ariannol?**

Mrs Sharon Jones sy'n dysgu'r cwrs, ac oherwydd ei gwybodaeth a'i diddordeb yn y maes nid oedd angen hyfforddiant ychwanegol, dim ond

amser i ymgyfarwyddo â'r adnoddau. Mae'r IFS yn rhoi cymorth ac mae'r holl adnoddau ar gael ar-lein, felly mae'n hawdd i athrawon eu defnyddio ar fyrddau gwyn a gall ddisgyblion gael mynediad atynt y tu allan i wersi ffurfiol. Roedd y disgyblion sydd â gallu is wedi mwynhau'r cwisiau sydd ar gael ar y wefan. Nododd y Pennaeth fod cost y cymhwyster yn fforddiadwy iawn a'i fod yn ddefnydd da o arian.

Os bydd cwrs o'r fath yn cael ei dargedu at ddisgyblion yn is i lawr yr ysgol, mae'n debygol y byddai angen ystyried darparu hyfforddiant i staff ar y pwnc.

- **A ydych wedi gweithio â chyrff allanol i ddarparu addysg ariannol, e.e. banciau, cymdeithasau adeiladu, CAB neu undebau credyd?**

Mae'r ysgol wedi gweithio â'r banc lleol yn y gorffennol, a hyd yn oed wedi cael banc ysgol. Roedd disgyblion yn gallu ennill profiad yno a gweithio yn y gangen leol ar ôl gadael ysgol. Nawr, oherwydd bod y sector bancio yn torri nôl ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, nid yw hyn wedi bod yn bosibl. Nawr dim ond dau aelod o staff sydd gan y banc lleol ac felly ni all staff ddod i siarad â'r disgyblion.

Roedd yr ysgol yn awyddus i wybod mwy am y posibilrwydd o weithio â'r undebau credyd, ond nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gynllun o'r fath yn yr ardal ar hyn o bryd.

- **Pa atborth ydych wedi ei dderbyn gan ddisgyblion?**

Siaradodd Iwan a Glesni yn gadarnhaol iawn am y cwrs. Nododd Glesni fod hwn yn gymhwyster gwerthfawr a roddodd iddi'r wybodaeth a'r sgiliau i fynd i'r afael â materion ariannol a fyddai'n effeithio arni yn y dyfodol. Teimlai hefyd nad oedd cyd-ddisgyblion nad oeddent wedi astudio'r cwrs yn cynilo eu harian.

Mwynhaodd Iwan ddeall mwy am fandiau treth a'r trethi gwahanol. Nododd ei fod yn teimlo ei fod bellach yn gwybod am bethau y byddai angen iddo ei gael yn ddiweddarach mewn bywyd. Dywedodd hefyd ei fod yn deall mwy am yr hyn sy'n cael ei drafod ar y newyddion, e.e. y wasgfa gredyd a chyfraddau llog.

Mwynhaodd y ddau ddisgybl yr agweddau ymarferol a oedd hefyd yn cael eu cynnwys o dan y cynllun Menter yr Ifanc e.e. bargeinio a chyllidebu.

Teimlodd y ddau y dylai pawb gael cyfle i astudio cwrs o'r fath.

- **Pam nad oedd y ddarpariaeth a oedd eisoes ar gael o fewn gwersi mathemateg/ABCh yn ddigonol?**

Mae rhywfaint o ddarpariaeth ym mathemateg, ffiseg (biliau) ac ABCh ond teimlai'r disgyblion nad oedd hynny'n ddigon ac y dylid gwneud mwy o waith â disgyblion iau.

Cytunodd yr athrawon y byddent yn hoffi cynnig darpariaeth ehangach ond bod yr amserlen yn broblem. Efallai y bydd yr ysgol yn ystyried cynnig y cwrs lefel 1 i ddisgyblion iau, o bosibl blwyddyn 9, gan y byddai rhai o'r termau efallai'n anodd i flynyddoedd 7 ac 8. Fel y nodwyd, efallai y bydd problem gyda hyfforddi staff.

Teimlai'r ysgol y gall fod cyfle yma i ystyried gwahodd rhieni i'r ysgol i redeg cwrs ar ôl ysgol i'r teulu. Trafodwyd y peilot yng Nglannau Merswy, a'r anhawster o ran cael oedolion i gyfaddef eu bod angen cwrs o'r fath. Ar y llaw arall, pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn cwrs fel hwn yn yr ysgol, bydd rhai disgyblion yn trafod y materion yn y cartref.

Bydd disgyblion yr ysgol yn dechrau astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru y flwyddyn nesaf, ac mae'r ysgol yn gobeithio y bydd cyfle, o dan y modiwl 'menter', i fwy o ddisgyblion astudio materion ariannol.

DIWEDD